# DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO:
## Canllaw Astudio



**Canllaw ar gyfer astudio a thrafod yn weddigar**
**Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd, 2019**

Yr Eglwys **Fethodistaidd**

# CYNNWYS


**04**
Rhagair

**06**
Cyflwyniad

**08**
1. Mae Duw wedi ein creu i fod mewn perthnasoedd ac i fod yn rhywiol

**10**
2. Mae Duw yn ein harwain ym mhob perthynas

**12**
3. Arweiniad Duw ar gyfer priodas: datblygu ein gweledigaeth

**14**
4. Ehangu arferion o ran priodas

**16**
5. Y camau nesaf ar gyfer yr Eglwys Fethodistaidd

**18**
Casgliadau

**20**
Diweddglo



Yr Eglwys **Fethodistaidd**

Yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain
www.methodist.org.uk


© Ymddiriedolwyr dros Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd, 2019
Rhif Elusen Cofrestredig 1132208


Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan y
Tŷ Cyhoeddi Methodistaidd
Methodist Church House
25 Marylebone Road
London NW1 5JR
020 7486 5502
enquiries@methodistchurch.org.uk

Cymerwyd teitl yr adroddiad gwreiddiol o emyn Fred Pratt Green “How rich is God’s creation (The Joy of Being Friends)” ac fe’i defnyddir trwy ganiatâd Stainer & Bell Cyf, Llundain, Lloegr, www.stainer.co.uk

Tudalen 21: Hawlfraint y weddi: y Parchg Kenneth G. Howcroft. Defnyddir drwy ganiatâd.

Daw’r dyfyniadau o’r Ysgrythur o’r Beibl Cymraeg Newydd.

# DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO:
## Canllaw Astudio

### Canllaw ar gyfer astudio a thrafod yn weddigar Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd, 2019

I'ch helpu i astudio *Duw mewn cariad sy'n ein huno* a thrafod yr adroddiad yn weddigar, mae gan y canllaw hwn:

- ddigon o le ar ymyl y tudalennau fel y gallwch ychwanegu eich nodiadau a'ch meddyliau eich hun
- eiconau i'ch arwain yn rhwydd at:

y ffilm sy'n cyflwyno'r mater, gyda'r Grŵp Tasg yn sôn am y materion y rhoesant sylw iddynt wrth ysgrifennu'r adroddiad

y cwestiynau ynglŷn â phob adran yn yr adroddiad, i'w hystyried yn unigol neu i'w trafod ag eraill.

# RHAGAIR

Cyflwynwyd yr adroddiad *Duw mewn cariad sy'n ein huno* i'r Gynhadledd Fethodistaidd ym mis Gorffennaf 2019. Derbyniodd y Gynhadledd yr adroddiad a'i gymeradwyo i'r Cyfundeb, i'w astudio a'i drafod yn weddigar. Pan wnaeth hyn, sylweddolai'r Gynhadledd fod y penderfyniadau sydd i'w gweld ar derfyn yr adroddiad yn rhai pwysig iawn. Mae rhai ohonynt heb fod yn derfynol a bydd Synodau'r Taleithiau yn pleidleisio ar y rheini. Sylweddolwyd yn ogystal bwysigrwydd y gwahanol feysydd y bu'r Grŵp Tasg a gynhyrchodd yr adroddiad yn edrych i mewn iddynt.

Cafodd teitl yr adroddiad ei ddewis yn ofalus. Mae Duw yn ein huno mewn cariad oherwydd mai creaduriaid ydym ni oll sydd wedi ein creu i garu mewn llawer o ffyrdd amrywiol. Ond mae Duw mewn cariad yn ein huno yn achubol, am inni gamddefnyddio rhodd cariad gan ei defnyddio i'n dibenion hunanol ein hunain. A byddwn yn gweddïo ar i Dduw ein huno mewn cariad gan y byddwn, mor aml, yn canfod bod agweddau ar gariad dynol yn peri rhwyg. Mae rhai o'r materion sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn – ysgariad, cyd-fyw a pherthnasoedd un rhyw – yn faterion lle gwelwyd anghytundeb brwd ymhlith Cristnogion.

Lluniwyd yr adroddiad yn dilyn trafodaethau maith yn y Grŵp Tasg, gan adeiladu ar sail gweithgorau eraill a gyfarfu o'u blaen. Diolch i chi felly am roi sylw i'r adroddiad a bod yn

rhan o'r sgwrs weddigar a gynhaliwyd yn y grwpiau hynny ac a barhawyd yn y Gynhadledd. Mae llawer o bobl wedi rhannu yn ystod y sgyrsiau hyn eu profiad eu hunain, a hwnnw'n brofiad poenus ar adegau. Profiad o garu, o gael eu derbyn a'u gwrthod, o holi, canfod atebion a newid meddwl, a dysgu sut i fyw yng nghwmni rhai sy'n darllen y Beibl a gweld y byd yn wahanol, gan ddysgu ganddynt a'u parchu.

Mae'r canllaw astudio hwn wedi'i fwriadu i helpu gyda'r hyn y gofynnodd y Gynhadledd amdano, sef astudio a thrafod yn weddigar. Bwriedir i'r crynodebau o'r gwahanol adrannau a'r cwestiynau isod gael eu darllen ochr yn ochr â'r adroddiad llawn – er mwyn i unigolion a grwpiau ymroi i drafod yr adroddiad mewn dyfnder a hefyd, pan ddaw hi'n bryd i'r Synodau bleidleisio ar y penderfyniadau, er mwyn i'r cynrychiolwyr fod wedi'u trwytho yn y sgyrsiau a gynhaliwyd eisoes.

**"Derbyniodd y Gynhadledd yr adroddiad a'i gymeradwyo i'r Cyfundeb, i'w astudio a'i drafod yn weddigar"**

# CYFLWYNIAD

**Yn y rhan gyntaf mae'r adroddiad yn atgoffa'r Gynhadledd fod Cynhadledd 2016 wedi sefydlu Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd, i ailymweld â'r modd y diffinnir priodas a'i ystyried gan baratoi Datganiad newydd o safbwynt y Gynhadledd ar briodas a pherthnasoedd. Rhoddodd Cynhadledd 2018 gyfarwyddyd i'r Grŵp Tasg, yn hytrach na rhoi datganiad, y dylent ddarparu adroddiad ar y materion hyn a allai gynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog, petai diffiniad priodas yn newid.**

**Dyna y mae'r Grŵp Tasg wedi ei wneud yn *Duw mewn cariad sy'n ein huno.***

Mae'r adroddiad yn cadarnhau (0.1) fod Duw yn creu bodau dynol i fwynhau bywyd yn ei holl gyflawnder a bod hyn yn golygu ein bod yn byw mewn perthynas ag eraill. Fodd bynnag, mae Cristnogion wedi dehongli beth mae hynny'n ei olygu mewn gwahanol ffyrdd, ac mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi bod ar bererindod ers llawer blwyddyn. Cynigir yr adroddiad presennol a'r papurau perthnasol iddo (sydd i'w gweld yn **www.methodist.org.uk/MandR19**) fel rhan o'r ddirnadaeth honno.

Yna mae'r adroddiad yn nodi pam y mae'r cwestiynau hyn yn bwysig (0.2), sut yr aeth y Grŵp Tasg i'r afael â hwy (0.3) a beth yw cynnwys yr adroddiad (0.4).

> **"Mae Duw yn creu bodau dynol i fwynhau bywyd yn ei holl gyflawnder"**

## I'w ystyried

Mae'r adroddiad yn nodi nad yw Cristnogion yn cytuno ynglŷn â'r cwestiynau hyn. Pam ydych chi'n meddwl y mae hyn? Yn eich profiad chi, pa faterion eraill yn y bywyd Cristnogol sydd yn ennyn trafodaeth i'r fath raddau?

---

Mae'r Cyflwyniad yn disgrifio dechreubwyntiau'r Grŵp Tasg a'i ffyrdd o weithio.

Efallai yr hoffech edrych hefyd ar y fideo lle mae aelodau'r Grŵp Tasg yn disgrifio eu profiad wrth weithio ar yr adroddiad.

Sut y buasech chi wedi dechrau ar y dasg?

# 1. MAE DUW WEDI EIN CREU I FOD MEWN PERTHNASOEDD AC I FOD YN RHYWIOL

**Yn yr adran hon, mae'r adroddiad yn adeiladu ar sail cyd-ddealltwriaeth o adnodau arwyddocaol yn y Beibl a diwinyddiaeth Gristnogol er mwyn myfyrio ar ystyr bod yn ddynol. Mae'n dechrau gyda natur Duw, y cawsom ein creu ar ei ddelw, ac mae'n ystyried beth y mae hyn yn ei ddysgu i ni ynghylch ffurfio perthnasoedd fel pobl. Yna mae'r adran yn myfyrio ymhellach am y modd y mae Duw wedi ein creu yn fodau cymdeithasol a rhywiol, ac yn ystyried ffyrdd sy'n datblygu o ddeall cymhlethdod ac amrywiaeth rhywioldeb dynol.**

Mae'r adroddiad yn ystyried, gan ein bod ni fel pobl wedi ein creu ar ddelw Duw (1.1), fod angen inni ddechrau deall sut un yw Duw er mwyn deall beth yw ystyr bod yn ddynol.

Yna mae'r adroddiad yn trafod ein perthynas â Duw (1.2), ein perthynas â'n gilydd (1.3) a'r modd y cawsom ein creu i berthnasu fel bodau rhywiol (1.4).

Mae'r adroddiad yn edrych ar amrywiaeth mewn rhywioldeb (1.5) fel un agwedd ganolog ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn berson dynol a grëwyd mewn cariad gan Dduw.

**"Mae Duw wedi ein creu yn fodau cymdeithasol a rhywiol"**

## I'w ystyried

Sut rydych chi'n diffinio 'rhywioldeb'?
A yw'r rhan hon o'r adroddiad wedi peri i chi ailystyried eich syniadau?

---

Ydych chi wedi clywed dysgeidiaeth Gristnogol oedd yn awgrymu bod gweithgaredd rhywiol yn bechadurus yn ei hanfod? Sut wnaethoch chi, neu sut y gwnewch chi, ymateb i hyn?

# 2. MAE DUW YN EIN HARWAIN YM MHOB PERTHYNAS

**Yn Rhan 2, mae'r adroddiad yn edrych ar y cwestiwn, sut mae perthynas dda yn digwydd, yn arbennig perthynas rywiol dda. Mae'r adroddiad yn ceisio dirnad beth yw dibenion perthnasoedd da a beth sy'n eu nodweddu. Mae'n archwilio pa batrymau ymddygiad ac arferion sydd yn galluogi'r perthnasoedd da hyn i ffynnu. Yna mae'n ystyried patrymau ac arferion cyfoes o ran perthnasoedd, yng ngoleuni'r meddyliau hyn. Yn olaf, mae'n cynnig meddyliau ynglŷn â rhannau o'r Beibl a dysgeidiaeth Fethodistaidd flaenorol.**

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cydnabod dibenion perthnasoedd da (2.1), gan ein hatgoffa mai Duw sydd wedi gwneud popeth, ei fod yn caru popeth a wnaeth ac yn gwahodd bodau dynol i dderbyn y cariad hwnnw a charu hefyd yn eu tro. Dyma ein prif bwrpas fel bodau dynol, yr ydym yn ei gyflawni trwy addoli a gwasanaethu Duw mewn gwahanol ffyrdd. Yna mae'r adroddiad yn trafod beth sy'n nodweddu perthnasoedd da (2.2), gan gynnig y farn y dylai pob perthynas arwyddocaol fod yn seiliedig ar gariad hunanroddol, ymrwymiad, ffyddlondeb, teyrngarwch, gonestrwydd, parch i'n gilydd, cydraddoldeb a'r awydd i weld y bobl dan sylw yn ffynnu. Mae'n cynnig egwyddorion perthnasoedd da (2.2.5) i'r Gynhadledd eu cadarnhau.

Wedyn mae’r adroddiad yn disgrifio (2.3) patrymau ac arferion o ran perthnasoedd da a sut y mae’r rhain yn cefnogi dibenion a phriodweddau perthnasoedd da.

Wedyn mae’r adroddiad yn cynnig meddyliau ychwanegol (2.4) am berthnasoedd rhywiol da, yng ngoleuni rhai o’r pethau a ddywed yr Ysgrythur a rhai datblygiadau diwinyddol yn ein dyddiau ni. Mae’n edrych ar gysyniadau allweddol fel diweirdeb a ffyddlondeb fel pethau cadarnhaol ac nid negyddol, sy’n berthnasol i bawb ac nid rhyw ychydig o bobl. Ar ôl hynny, edrychir ar y newid a fu mewn agweddau at berthnasoedd rhywiol yn ein dyddiau ni (2.5), cyd-fyw (2.6), partneriaethau sifil (2.7), perthnasoedd LHDTCRh+ (2.8) a symud tuag at briodas (2.9).

> **“Mae’r adroddiad yn edrych ar gysyniadau allweddol fel diweirdeb a ffyddlondeb”**

## I’w ystyried

Mae’r adroddiad yn nodi mai’r allwedd i berthnasoedd da yw bod yn hunanroddol ac nid yn hunangeisiol, ond bod hyn yn aml wedi cael ei gamddeall yn y traddodiad Cristnogol. Allwch chi feddwl am adegau pan fu’r pwyslais ar hunanaberth mewn perthynas yn anghynorthwyol?

---

Beth mae’r cysyniadau allweddol hyn, diweirdeb a ffyddlondeb, yn ei olygu fel rydych chi’n deall pethau? A oes ganddynt ystyr arbennig o fewn perthnasoedd rhywiol?

# 3. ARWEINIAD DUW AR GYFER PRIODAS: DATBLYGU EIN GWELEDIGAETH

**Mae trydedd adran yr adroddiad yn nodi cymeriad unigryw'r ymrwymiad sy'n gyfystyr â dealltwriaeth yr Eglwys Fethodistaidd o briodas. Mae'n ystyried sut mae cysyniadau pwysig cyfamod a gras yn arbennig o berthnasol iddi. Amlyga'r adran hon sut gall perthnasoedd priodasol gyfoethogi pobl, gan gydnabod ar yr un pryd y gall realiti bywyd fod yn wahanol weithiau i'r weledigaeth mae Duw yn ei chynnig i ni. Mae'r adroddiad yn olrhain y newidiadau yn nysgeidiaeth yr Eglwys Fethodistaidd ar briodas, gan roi mwy o bwyslais ar gyfeillach rhwng partneriaid cyfartal a llai ar greu plant. Cynigir meddyliau am ddiwinyddiaeth priodas sy'n seiliedig ar y modd y darllenwn y Beibl, diwinyddiaeth Fethodistaidd, a phrofiadau bywyd pobl.**

I ddechrau, mae'r adroddiad yn archwilio diwinyddiaeth priodas fel y mae'r ddiwinyddiaeth honno'n datblygu (3.1). Yna mae'n edrych ar ras dwyfol a gwendid dynol (3.2), priodas fel sefydliad mewn cymdeithas a than y gyfraith (3.3), ac adnoddau y gellid eu cynnig i helpu priodasau (3.4).

**"Gras dwyfol a gwendid dynol"**

## I'w ystyried

Sut rydych chi'n deall Genesis 2:22-24?

---

Pam rydych chi'n meddwl bod y ddealltwriaeth o briodas a ddatgenir gan yr Eglwys Fethodistaidd wedi newid dros y ddwy ganrif ddiwethaf?

---

Beth allai gweithred litwrgaidd i nodi diwedd priodas ei wneud (ac ar gyfer pwy)?

# 4. EHANGU ARFERION O RAN PRIODAS

**Yn y bedwaredd adran, mae'r adroddiad yn edrych ar sut y mae'r Wladwriaeth wedi datblygu perthnasoedd tebyg i briodas gan greu partneriaethau sifil, ac wedi ehangu'r diffiniad o briodas fel y cyfryw i gynnwys cyplau o'r un rhyw. Ar yr un pryd, mae'r adroddiad yn ystyried a yw'r ddiwinyddiaeth Fethodistaidd sydd yn datblygu o ran priodas a pherthnasoedd, yn golygu y gall yr Eglwys Fethodistaidd yn awr ehangu ei harferion ei hun o ran priodas. Mae casgliadau'r adran hon yn cynnwys myfyrdod ar ddadleuon blaenorol dros beidio ag ehangu'r priodasau a ddethlir i gynnwys cyplau o'r un rhyw. Mae'n ystyried agweddau blaenorol at yr Ysgrythur a dehongliadau sy'n dod i'r amlwg.**

Mae'r adroddiad yn edrych (4.1) ar y cwestiwn sy'n cael ei godi gan Ddeddf Priodas (Cyplau o'r un rhyw) 2013, ac (4.2) ar bwy gaiff gofrestru partneriaeth sifil neu briodi yn ôl y gyfraith. Mae'n edrych yn ogystal ar bwy gaiff gofrestru partneriaeth sifil neu briodi o dan ddisgyblaeth yr Eglwys Fethodistaidd (4.3).

> **“Mae’n ystyried agweddau blaenorol at yr Ysgrythur a dehongliadau sy’n dod i’r amlwg”**

## I’w ystyried

A oes unrhyw rannau penodol o’r Beibl wedi pennu’r ffordd rydych chi’n meddwl am berthnasoedd unrhyw? Pa rai?

---

Mae awduron yr adroddiad yn cynnig bod yr Eglwys “mewn parchedig ofn a gostyngeiddrwydd” yn cymryd camau y maent hwy yn credu eu bod “yn ysgrythurol a ffyddlon”. Beth yw eich ymateb wrth ddarllen hyn? Ar beth y mae eich ymateb yn seiliedig?

# 5. Y CAMAU NESAF AR GYFER YR EGLWYS FETHODISTAIDD

**Dyma ran olaf ond un yr adroddiad. Eir ymlaen yma i ystyried beth fydd ein diwinyddiaeth sydd yn datblygu, o ran perthnasoedd a phriodas, yn ei olygu yn ymarferol ar gyfer yr Eglwys Fethodistaidd a sut gallwn ni barhau'n unedig, fel cymuned Crist-ganolog lle mae pawb yn gyfartal er bod gennym ddaliadau gwahanol ar y materion hyn. Yn y bôn, mae'n cynnig newidiadau i'r Rheol Sefydlog ar briodas ac yn awgrymu cynnwys disgrifiad mwy datblygedig o'n dealltwriaeth o briodas yn adran Canllawiau *Arferion Cyfansoddiadol a Disgyblaeth yr Eglwys Fethodistaidd (CPD)*. Mae hefyd yn cynnig y dylid datblygu adnoddau i gefnogi priodas a pherthnasoedd pwysig eraill.**

Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn dechrau trwy drafod y canllawiau yn *CPD* ynglŷn â deall priodas (5.1) ac yna mae'n cynnig y Rheol Sefydlog ddiwygiedig ynghylch priodas (5.2). Mae'r adroddiad yn cydnabod y parch tuag at wahanol argyhoeddiadau (5.3) sydd eisoes wedi'i ddatgan trwy gyfrwng y ddarpariaeth a wneir yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer gwahanol ddaliadau.

> **"Sut gallwn ni barhau'n unedig, fel cymuned Grist-ganolog lle mae pawb yn gyfartal"**

## I'w ystyried

Mae'r adroddiad yn awgrymu sut y gall yr Eglwys gadw cydbwysedd rhwng egwyddor gweithredu fel Cyfundeb ac amddiffyn cydwybod. A oes adegau pan fydd yn rhaid rhoi un o'r ddau beth hyn o'r neilltu er mwyn y llall?

---

Sut y gallai Cynghorau Eglwys (ymddiriedolwyr rheolaethol) ymgynghori er mwyn gwneud y penderfyniadau y mae'r adroddiad yn cynnig y dylid gofyn iddynt eu gwneud?

# CASGLIADAU

Terfyna'r adroddiad drwy estyn gwahoddiad i'r bobl Fethodistaidd barhau i drafod y materion hyn, gan gadw mewn cof y tair thema allweddol sy'n gwau trwy'r adroddiad, sef:

- Bod yn agored a chadarnhaol ynglŷn â rhywioldeb a pherthnasoedd.
- Gwerthfawrogi pob perthynas lle mae gras ar waith.
- Ehangu a chyfiawnhau dealltwriaeth o briodas fel rhywbeth rhwng dau o bobl.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn gofyn inni gofio ein bod wedi ein galw gan y Duw a'n creodd mewn amrywiaeth cyfoethog, i ddod ynghyd yn enw'r Iesu fel y cawn ein cyfoethogi fwyfwy yn ein hundeb.

**"Mewn amrywiaeth cyfoethog ...cawn ein cyfoethogi fwyfwy yn ein hundeb"**

## I'w ystyried

A oes unrhyw beth yn yr adroddiad hwn yn 'taro at wraidd Cristnogaeth' yn eich barn chi?

---

Sut rydych chi'n meddwl y gallwn ni gyd-fyw â'r rhai sydd â barn wahanol am y themâu allweddol yn yr adroddiad hwn?

# DIWEDDGLO

**Felly, beth sy'n digwydd yn awr?**

Ni ddisgwylir i unigolion neu grwpiau sydd wedi astudio'r adroddiad fynegi eu barn mewn adborth ffurfiol; yn hytrach fe ddisgwylir i'r sgyrsiau a gynhelir ddylanwadu ar y rhai a fydd yn ymgynnull yn y Synodau yng ngwanwyn 2020. Bydd Ysgrifenyddion y Synodau wedi derbyn cyfarwyddyd ynglŷn â'r pleidleisiau y mae angen eu cynnal gan roi'r canlyniadau i Swyddfa'r Gynhadledd. Yna bydd grŵp bychan a benodwyd gan Gynhadledd 2019 yn adolygu'r pleidleisiau a'r sylwadau a dderbynnir gan y Synodau ac yn cyflwyno adroddiad a chynigion i'w penderfynu, i Gynhadledd 2020.

Felly, a wnewch chi weddïo dros:

- y rhai fydd yn cyfarfod, trafod a phleidleisio yn y Synodau
- aelodau'r Gynhadledd wrth iddynt wneud y penderfyniad terfynol
- pawb y bydd y canlyniad yn effeithio arnynt: y rhai a fydd yn llawenhau a'r rhai a fydd yn tristáu oherwydd yr hyn a wna'r Gynhadledd
- y rhai a fydd yn gweinidogaethu i bawb y bydd y canlyniad yn effeithio arnynt
- undod Eglwys Crist.

## Gweddi

O Dduw trugarog,
helpa ni
i fynegi'n gariadus yr hyn sydd ar ein meddwl,
a gwrando'n gariadus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud;
i deimlo mewn modd cariadus yr hyn sydd yn ein calonnau,
ac i ymdeimlo mewn modd cariadus â'r hyn sydd yng nghalonnau eraill;
i ymgynghori'n gariadus er mwyn canfod dy wirionedd,
ac i fod yn agored mewn modd cariadus i'th Ysbryd sydd yn ein tywys.
Trwy bob anghytundeb, tywys ni;
ac ym mhob cytundeb, arwain ni.
Gyda'n gilydd boed inni rannu meddwl Crist,
y gofynnwn y cyfan yn ei enw.
**Amen.**



10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO*:
Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

***Cafodd yr adroddiad sy'n dilyn ei drafod yn helaeth yng Nghynhadledd 2019. Gwnaeth y Gynhadledd newidiadau i rai o'r penderfyniadau a gyflwynwyd gan y Grŵp Tasg, ac felly mae rhai o'r penderfyniadau sydd yn awr yn cael eu cyflwyno i'r Synodau fel penderfyniadau dros dro yn wahanol i'r rhai a ddisgrifir yn adran 5 o'r adroddiad. Fodd bynnag, roedd penderfyniad 10/1 yn rhoi cyfarwyddyd bod yr adroddiad i gael ei gymeradwyo ar gyfer astudio a thrafodaeth weddigar, felly mae'r adroddiad llawn yn cael ei atgynhyrchu yma yn y ffurf a ddefnyddiwyd i'w gyflwyno i'r Gynhadledd.***

***Fodd bynnag, mae'r penderfyniadau a ddangosir ar ddiwedd yr adroddiad yn cael eu dangos yn y ffurf a basiwyd gan y Gynhadledd a'r rhain, yn arbennig y rhai y nodir eu bod yn rhai dros dro, sydd i gael eu trafod yn y Synodau.***

**Rhagair: Gwahoddiad personol i deithio ymlaen mewn cariad, ffydd a llawenydd**

"Y peth mwyaf un a ddysgwch byth
fydd caru a bod yn wrthrych cariad eich hunan".[1]

Beth yw'r ffordd orau i ni fyw mewn perthnasoedd heddiw? Mae pawb ohonon ni'n byw gydag amrywiaeth aruthrol o berthnasoedd yn ein byd; rhai yn agosach a rhai yn bellach i ffwrdd. Oddi mewn i'n cylchoedd o ffrindiau, teulu a chydnabod, bydd gan y mwyafrif ohonom o leiaf rywfaint o brofiad o deuluoedd confensiynol dau-riant, teuluoedd un rhiant, cyplau sy'n byw gyda'i gilydd, pobl sengl, pobl sydd wedi ysgaru ac ailbriodi, partneriaethau rhwng pobl o'r un rhyw, a llawer o berthnasoedd eraill.

Beth yw'r ffordd orau i ni fyw'n ffyddlon fel Cristnogion yn y perthnasoedd hyn heddiw? Fel Methodistiaid, mae sut rydym ni'n ateb y cwestiwn hwn yn amrywio. Ac eto, rydym ni'n cael ein galw i fod mewn cymundeb cariadus â'n gilydd. Mae'r hyn rydym ni'n ei rannu, wrth garu Duw a gwybod bod Duw yn ein caru ninnau, yn llawer mwy nag unrhyw beth sy'n dod rhyngom.

Rydym ni, y Methodistiaid, wedi bod ar "Bererindod Ffydd" yn ystod y 25 mlynedd diwethaf er mwyn darganfod sut gallwn ni fynegi ein cariad at Dduw yn well o ran sut rydym ni'n caru ein gilydd, ac yn galluogi'n gilydd i garu. Mae llawer o gamau dewr eisoes wedi'u cymryd. Dyw hynny ddim wedi bod yn hawdd. Mae'n drist ein bod weithiau wedi brifo'n gilydd ac wedi cael ein temtio i ymwahanu oherwydd y materion hyn sy'n ymwneud â chariad, Oherwydd mae'r cwestiynau sy'n ganolog i'r bererindod hon, yn eu hanfod, yn ymwneud â sut gallwn ni fyw a charu'n briodol.

* *Cymerwyd teitl yr adroddiad hwn o emyn Fred Pratt Green "How rich is God's creation (The Joy of Being Friends)" ac mae'n cael ei ddefnyddio trwy ganiatâd Stainer & Bell Ltd, Llundain, Lloegr, www.stainer.co.uk*

1 Aralleiriad o ran o gân George Alexander Aberle (a adwaenir wrth yr enw eden ahbez), *Nature Boy*, 1948 (canwyd gan Nat King Cole).

Agenda Cynhadledd **2019**

# DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO

## Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd, 2019 ar gyfer astudio a thrafod yn weddigar

Ewch i www.methodist.org.uk/MandR19 lle gellir lawrlwytho'r adroddiad llawn ar ffurf hwylus i'w argraffu mewn du a gwyn, yn y fersiynau a ganlyn:

- Cymraeg
- Cymraeg, print bras
- Saesneg
- Saesneg, print bras

Os gwnaethoch archebu ffilm y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd ar ffon cof, gallech ei rhoi mewn amlen a'i gludo yma i'w chadw'n ddiogel.

Mae'r ffon cof yn cynnwys ffilm o aelodau Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd yr Eglwys Fethodistaidd yn myfyrio ar y broses o gydweithio er mwyn llunio'r adroddiad *Duw mewn cariad sy'n ein huno*, gan roi cyd-destun ar gyfer astudio a thrafod yn weddigar.

I lawrlwytho neu ffrydio'r ffilm, ewch i **www.methodist.org.uk/MandR19**

# DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO:
## Canllaw Astudio

**Canllaw ar gyfer astudio a thrafod yn weddigar Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd, 2019**

Ewch i www.methodist.org.uk/MandR19 lle gellir lawrlwytho'r adroddiad llawn ar ffurf hwylus i'w argraffu mewn du a gwyn, yn y fersiynau a ganlyn:

- Cymraeg
- Cymraeg, print bras
- Saesneg, gyda fideo
- Saesneg, print bras

Hefyd ar gael ar-lein y mae adnoddau ychwanegol i helpu unigolion i fyfyrio'n weddigar a grwpiau i sgwrsio, ac ar gyfer arwain addoliad yn cyffwrdd ar y materion a drafodir yn yr adroddiad.

**www.methodist.org.uk/MandR19**

Yr Eglwys **Fethodistaidd**